# MESUR ADDYSG (CYMRU) 2009

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

### Rhan 1 – Apelau a Hawliadau Addysg gan Blant

**Apelau anghenion addysgol arbennig**
Mae adrannau 1- 8 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Addysg 1996

***Adran 6 – Gwasanaethau eirioli annibynnol (mewnosod adran 332BB newydd yn Neddf Addysg 1996)***

30. Mae is-adran (1) o adran 332BB newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru i drefnu bod gwasanaeth eirioli annibynnol ar gael yn eu hardal, a bod plentyn neu gyfaill achos ar gyfer plentyn yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth pe byddai'n gofyn am hynny.

31. Mae is-adran (2) yn diffinio "independent advocacy services" (gwasanaethau eirioli annibynnol) yn wasanaethau a fwriedir ar gyfer darparu cyngor a chymorth i blentyn sy'n ystyried p'un ai i apelio i'r Tribiwnlys ai peidio, sydd wedi gwneud neu sy'n bwriadu gwneud apêl, neu sy'n cymryd rhan neu'n bwriadu cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghydfodau.

32. Mae isadran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol, pan fyddant yn gwneud trefniadau gwasanaethau eirioli, roi sylw i'r egwyddor bod yn rhaid i'r gwasanaeth eirioli fod yn annibynnol ar unrhyw berson sy'n destun apêl neu y mae a wnelo ag ymchwilio i'r apêl neu ddyfarnu ar yr apêl.

33. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ac sy'n ymwneud â threfniadau gwasanaethau eirioli.

34. Mae isadran (5) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant, rhieni, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael.

35. Mae is-adran (6) yn caniatáu i Awdurdod Addysg Lleol wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer talu person, neu mewn perthynas â pherson, sy'n darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plentyn neu gyfaill achos.

36. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant neu gyfeillion achos.